OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 3110 (Cy.230)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *8 Tachwedd 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *21 Tachwedd 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 512ZB(4)(a)(iv) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol am Ddim) (Credyd Pensiwn y Wladwriaeth) (Cymru) 2005. Daw i rym ar 21 Tachwedd 2005 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Budd-dal rhagnodedig**

**2.** Mae Pensiwn Credyd y Wladwriaeth sy'n daladwy o dan adran 1 o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002(**2**) yn fudd-dal a ragnodwyd at ddibenion adran 512ZB(4)(a)(vi) o Ddeddf Addysg 1996 mewn amgylchiadau lle mae'r rhiant yn derbyn yr elfen credyd gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth.

(**1**) 1996 p.56. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol (*gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 512 o Ddeddf 1996 ). Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 512ZB a 568 o Ddeddf 1996 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: *gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672. a'r cofnod ynglŷn â Deddf 1996 yn Atodlen 1 iddo), ac adran 211o Ddeddf Addysg 2002 (y mewnosododd adran 201ohoni adran 512ZB yn Neddf 1996).

(**2**) 2002 p.16.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

8 Tachwedd 2005

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi'r elfen credyd gwarant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996. Yr effaith yw os yw rhiant yn derbyn yr elfen credyd gwarant mae gan ei blentyn hawl i gael ciniawau ysgol am ddim.